# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac C.James |
| **Aelod CDU/CDLl:** | Aelod |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod A.R.Lockyer (Neath North;) a/ac P.D.Richards (Baglan;) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, M.Shaw, C.Davies, R.Borthwick, N.Lake, L.Morgan, M.Thomas, G.White a/ac T.Davies |

---

1. **CROESO A GALW'R RHESTR**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Derbyniwyd y Datganiadau o Fuddiannau canlynol ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd Dennis Keogh - Parthed Cais Rhif P2021/1268 – Bayview, Fernfield, Baglan gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn bersonol - roedd yn ystyried hyn yn fuddiant rhagfarnol, a gadawodd y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio ar hynny.

Y Cynghorydd Steve Hunt - Parthed Cais Rhif P2021/0965 – Y Gampfa, Quay Road, Castell-nedd, gan ei fod yn adnabod yr ymgeiswyr

| | |
|---|---|
| | yn bersonol pan fuont yn byw yn ei ward - roedd yn ystyried hyn yn fuddiant rhagfarnol, a gadawodd y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio ar hynny. |
| Y Cynghorydd Chris Williams | - Parthed Cais Rhif P2021/0965 – Y Gampfa, Quay Road, Castell-nedd, gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn bersonol - roedd yn ystyried hyn yn fuddiant rhagfarnol, a gadawodd y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio ar hynny. |

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

5. **CAIS RHIF P2021/1268 - BAYVIEW, 3 FERNFIELD, BAGLAN**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd D Keogh ei fuddiant, a gadawodd y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio ar hynny.)

Gwnaed cyflwyniad gan swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais (cynyddu uchder crib y byngalo presennol i ddarparu llety yn y gwagle sydd yn y to, estyniad deulawr yn y cefn gyda chyntedd, ynghyd â garej sy'n gysylltiedig â'r ystlyslun ochr gyda theras do uwchben a gwaith cynnal cysylltiedig yn Bayview, 3 Fernfield, Baglan SA12 8AL) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelod y ward lleol yn bresennol i roi ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2021/1268, yn unol ag argymhellion swyddogion.

6. **TAFLEN DDIWYGIADAU**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif P2021/0965 cyn y cyfarfod, yr oedd Cadeirydd wedi caniatáu digon o amser i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddi gael ei dosbarthu/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw am y rhesymau a'r amgylchiadau arbennig canlynol: nid oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac roedd am sicrhau bod aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

7. **CAIS RHIF P2021/0965 - CAMPFA 'UNIT 9', QUAY ROAD, CASTELL-NEDD**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, dychwelodd y Cynghorydd D Keogh i'r cyfarfod a chymerodd ran yn y drafodaeth a'r pleidleisio ar hynny, ac ailgadarnhaodd y Cynghorydd C Williams ei ddatganiad o fuddiant a gadawodd y cyfarfod, a'r drafodaeth a'r pleidleisio ar hynny.)

Gwnaed cyflwyniad gan swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (amrywiad ar amodau 1, 3 a 4 caniatâd cynllunio P2019/5650 i ganiatáu caniatâd parhaol, newid amserau agor i 06:00 tan 21:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 07:00 i 16:00
ar ddydd Sadwrn ac 08:00 i 15:00 ddydd Sul, a chaniatáu i gerddoriaeth uchel gael ei chwarae'n unol â'r adroddiad asesiad sŵn a gyflwynwyd yng Nghampfa 'Unit 9', Quay Road, Castell-nedd SA11 1SL) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelod y ward lleol yn bresennol i roi ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2021/0965, yn unol ag argymhellion swyddogion,

8. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 6 CHWEFROR I 27 CHWEFROR 2022**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 6 Chwefror i 27 Chwefror 2022.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r adroddiad.

9. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**